

# Monmouthshire Select Committee Minutes

Meeting of Pwyllgor Craffu Cymunedau Cryf held at Remote Microsoft Teams Meeting on Dydd Iau, 12fed Tachwedd, 2020 at 10.00 am

## Councillors Present

County Councillor L.Dymock (Chairman)  
County Councillor (Vice Chairman)  
  
County Councillors: D. Batrouni, L. Guppy,  
J.Treharne and S. Woodhouse

## Officers in Attendance

David Jones, Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd  
Linda O'Gorman, Principal Licensing Officer  
Huw Owen, Principal Environment Health Officer  
(Public Health)  
Jennifer Walton, Registration Service Manager  
Gareth Walters, Trading Standards & Animal Health  
Team Leader  
Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu  
Robert McGowan, Swyddog Polisi a Chraffu

## APOLOGIES:

### 1. Datganiadau o Fuddiant

Ni waned unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

### 2. Fforwm cyhoeddus

Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd yn bresennol.

### 3. Craffu ar Adroddiad Perfformiad Diogelu'r Cyhoedd 2019/20 ac ymateb Covid-19 yn 2020.

Cyflwynodd y Swyddogion David Jones, Huw Owen a Gareth Walters yr adroddiad a bu iddynt ateb cwestiynau'r aelodau.

**Her:**

*A oes cyrsiau hylendid bwyd yn cael eu rhedeg unwaith eto?*

Na, dim eto. Gallwn edrych pryd y maent yn debygol o ail gychwyn.

*A oes modd i ni glywed am yr effaith y mae toriadau i'r gyllideb wedi ei gael ar arloesi? Yn gyffredinol mae gostyngiad wedi bod o ran perfformiad – a yw hyn yn sgil y toriadau i'r gyllideb? Ac a oes gostyngiad cyfatebol o ran niferoedd staff?*

Mae'r gyllideb wedi aros yr un fath yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac mae hyn yn gydnabyddiaeth o'r gwaith caled sy'n cael ei wneud. Mae nifer y staff hefyd yn ymateb i'r pandemig, felly bydd perfformiad eleni'n dioddef o ganlyniad. Mewn cyfarfod cenedlaethol diweddar, trafodwyd ac edrychwyd yn fanwl ar ffyrdd y gellir cryfhau'r gwasanaeth drwy Lywodraeth Cymru; gobeithio y bydd hyn yn barod erbyn mis Ebrill nesaf. Er hyn, nid oes sicrwydd, ond rydym yn bendant yn trafod y gyllideb a'r hyn y gallwn ei ddarparu.

Rydym yn falch, fel y gwelir yn Ffig.1 Nad yw nifer yr ymweliadau rhagweithiol wedi gostwng. Rydym yn dueddol o gofnodi ein hystadegau a'n perfformiad mewn dwy ffordd: ymatebion mewn tri diwrnod gwaith, ac achosion sydd wedi eu cau o fewn tri mis. Mae'r diwethaf yn arbennig o bwysig am ei fod yn mesur pa mor gyflym ac effeithiol y mae ein swyddogion yn delio â chwynion. Mae'r niferoedd o ran y rhain wedi cynyddu, felly mae perfformiad swyddogion o ran delio gyda chwynion wedi gwella. Rydym yn wasanaeth rhagweithiol iawn. Cyfnod yr haf yw ein cyfnod prysuraf o ran y cwynion a dderbynnir, ond mae'r cyfnod yn gwrthdaro gyda'r amser y mae ein swyddogion eisiau mynd ar wyliau – rydym, felly, o dan bwysau yn ystod y misoedd yma ac mae hyn yn lleihau faint o waith rhagweithiol y mae modd i ni ei wneud.

O ran lles anifeiliaid, rydym wedi bod, bob amser, yn gyson o ran ymateb o fewn y 90 canradd, ond roedd y llynedd yn arbennig o anodd, oherwydd salwch staff amrywiol. Collom aelod pwysig o staff y flwyddyn flaenorol, a chawsom drafferth llenwi eu swydd. Cyn y cyni, roedd gennym bump swyddog iechyd anifeiliaid, ond erbyn hyn mae gennym 2.4 FTEs. Gan ein bod yn arwain yn strategol ar Safonau Masnach Cymru a Lles Anifeiliaid, mae gennym ychydig o gyllid ychwanegol o ran Iechyd Anifeiliaid ar draws Cymru. Gall y Swyddog Walters gydlyn hyn, ac mae'r arian wedi galluogi'r tîm i benodi swyddog profiadol na fyddai wedi bod â diddordeb yn y swydd fel arall. Ymunodd dau swyddog arall ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf, ond mae Covid wedi cael effaith sylweddol ar eu datblygiad a'n gallu i'w hyfforddi. Rydym yn cyfathrebu'n gyson gyda Llywodraeth Cymru ar yr anawsterau y mae timau iechyd a lles anifeiliaid yn eu wynebu ym mhob awdurdod lleol. Yn ddiweddar, mae hyd yn oed yr RSPCA wedi gorfod lleihau'r gwaith y mae'n ei wneud ar yr ochor archwilio.

*Mae cynnydd sylweddol wedi bod o ran pobl yn cael anifeiliaid anwes yn ystod Covid, felly mae'r galw ar y tîm yn debygol o gynyddu. A ddylid cynnwys y mater yma mewn cyfarfod yn y dyfodol?*

Dylid, gallwn drafod y tu allan i'r cyfarfod yn y lle cyntaf, ac ystyried yr hyn sydd angen ei wneud wrth symud ymlaen. Ar hyn o bryd rydym yn arwain prosiect tair mlynedd ar ran Llywodraeth Cymru ar fridio cŵn, gan edrych ar y darlun cyfan yng Nghymru a'r gobaith yw cyflwyno model newydd. Ochr yn ochr â hyn, oes mae problemau sy'n ymwneud â phobl yn prynu anifeiliaid anwes. Dim ond 8% o'r farchnad cŵn bach sy'n dod gan fridwyr trwyddedig. Mae hyn yn dangos difrifoldeb y mater.

*O ran y cynnydd yn y ffigurau o ran tamprwydd/llwydni a tân, beth allwn ni/ydym ni'n ei wneud er mwyn sicrhau fod landlordiaid a chymdeithasau tai yn rhoi sylw priodol i'r problemau yma mewn cartrefi?*

Yn Sir Fynwy, ers nifer o flynyddoedd, rydym wedi gosod delio ag oerni a tân yn flaenoriaeth. Mae swyddogion yn blaenoriaethu'r materion yma wrth gynnal ymchwiliadau mewn eiddo, ac maent yn awyddus i sicrhau eu bod yn cae eu datrys. Gall problemau sy'n gysylltiedig â Diogelwch Tân ymwneud â diffyg cydgysylltiad larymau tân hy mae gan nifer o landlordiaid larymau tân yn yr eiddo, ond efallai nad yw'r rhai ar y llawr gwaelod a'r llawr cyntaf wedi eu cydgysylltu. Byddai hyn yn cael ei ystyried yn beryglus, a byddai gofyn gwneud gwaith er mwyn datrys y mater. Mae oerfel eithafol yn berygl sy'n achosi pryder arbennig i ni. Mae pawb yn ymwybodol o dlodi tanwydd. Rydym yn ceisio bod yn gadarn gyda landlordiaid o ran datrys problemau sy'n ymwneud â gwres annigonol. Mae tamprwydd/llwydni yn ddiddorol. Pan fydd tenantiaid yn cwyno am hyn, mae'r rhan fwyaf o achosion yn ymwneud â chyddwysiad. Mewn sawl achos, mae hyn o ganlyniad i ffordd o fyw y tenantiaid, yn hytrach na diffyg y landlord o ran darparu gwres a dulliau awyru digonol i ddelio â chyddwysiad. Mae tai modern yn

dueddol o fod wedi eu selio'n aerglos, felly os nad yw ffenestri'n cael eu hagor a ffaniau'n cael eu defnyddio, gall problemau godi sydd ddim o angenrheidrwydd yn fai ar y landlord. Ers pum neu chwe mlynedd mae landlordiaid wedi gorfod cofrestru gyda Rhentu Doeth Cymru a bod ag asiant trwyddedig. Mae hyn wedi gwella dealltwriaeth landlordiaid ynglŷn â'u cyfrifoldebau ac mae hyn wedi ein helpu o ran y gwaith gorfodaeth.

*A ellir ymhelaethu ar y manylion yn y graffiau yn 5.2.1?*

Ystyrir bod peryglon Categori 1 yn fwy difrifol na pheryglon Categori 2. Yr un problemau ydynt ond i raddau llai difrifol, ond maent angen eu datrys o hyd. Mae peryglon Categori 1 yn beryglon y mae gan y cyngor ddyletswydd i'w datrys, ond mae peryglon Categori 2 yn beryglon y mae gennym bŵer i fynnu bod landlord yn delio â hwy os ydym yn teimlo fod hynny'n briodol.

#### **Crynodeb y Cadeirydd 4a:**

Canmolodd y Cyngorydd Batrouni fanyldeb yr adroddiad, yn enwedig y wybodaeth gymharol. Nododd y gostyngiad o ran perfformiad ac roedd am wybod a oedd hyn yn uniongyrchol oherwydd toriadau, yn enwedig o ran archwiliadau sŵn a lles anifeiliaid. Cadarnhaodd y swyddogion bod arbedion yn cael effaith, ond bu iddynt nodi'r ddwy ffodd y mae achosion yn cael eu categorio, a bod nifer yr achosion sy'n cael eu cau o fewn tri mis wedi cynyddu. Mae gwaith rhagweithiol yn cael ei gyfyngu oherwydd gwyliau staff yn ystod cyfnod prysur yr haf. Clywsom fod Safonau Masnach wedi colli aelod o staff a oedd wedi gweithio yno ers amser maith, ac mai anodd fu cael rhywun yn eu lle. Clywsom fod nifer y swyddogion bellach i lawr i 2.4. Fe'n diweddarwyd ar gyllid. Nododd y Cyngorydd Batrouni y cynnydd o ran yr anifeiliaid anwes sydd wedi eu prynu yn ystod y pandemig, a chytunom i drefnu cyfarfod i edrych ar hyn. Canmolodd y Cyngorydd Guppy y tîm a'u gwaith ardderchog. Hoffai weld hylendid bwyd yn symud ar-lein, a nododd rai problemau sy'n ymwneud â thai, yn enwedig achosion sy'n ymwneud â llwydni. Clywsom fod hyn yn flaenoriaeth i swyddogion, a gyda chymorth Rhentu Doeth Cymru, fod dealltwriaeth landlordiaid o'r materion yma wedi gwella.

#### **b)**

Cyflwynodd y Swyddogion David Jones, Huw Owen, Linda O'Gorman a Gareth Walters yr adroddiad a bu iddynt ateb cwestiynau'r aelodau.

#### **Her:**

*A oes argymhellion ynglŷn â gyrwyr tacsï, o ran cludo plant mewn seddi plant?*

Mae'n rhaid i dacsï ddilyn canllawiau seddi teithwyr: gwregys diogelwch, pwy sydd angen sedd *booster*, ac ati. Cyfrifoldeb y teithiwr yw gosod y rhain. Ni ddylid disgwyl i'r cwmni tacsï eu darparu. Rydym yn rhoi canllawiau i'r tacsï ar sut i wirio'r seddi. Gallwn roi copi o'r gofynion i'r aelodau ar ôl y cyfarfod.

*Beth fydd yn digwydd yn ystod dathliadau'r Nadolig a'r Flwyddyn Newydd?*

Yn wir, mae'r cyfnod cyn y Nadolig yn destun pryder, wrth i dafarndai ail-agor wedi'r cyfnod atal byr. O ran y dystiolaeth Profi, Orlhain, Diogelu yr ydym yn ei chasglu bellach, nid yw hyn mor berthnasol i fangre drwyddedig, ond yn hytrach mae angen lefel uchel o gydymffurfiaeth yn ein tafarndai a'n clybiau. Rydym yn trafod gyda'r Heddlu, a byddant yn targedu ystadau preswyl – mae'r problemau o ran Profi, Orlhain, Diogelu'n dueddol o ymwneud ag ymgysylltu cymdeithasol. Mae gan Heddlu Gwent, bellach, ychydig o adnoddau ychwanegol a fydd yn helpu yn hyn o beth. Byddant yn parhau i fynychu lleoliadau trwyddedig, fel yr arfer.

*Sut mae morâl swyddogion? Pa gefnogaeth sydd mewn lle ar eu cyfer?*

Mae'r tîm masnachol sy'n delio â Profi, Olrhain, Diogelu'n frwdfrydig ac ymroddedig ac maent yn gweithio oriau hir yn ystod y nos ar brydiau. Maent yn ymdopi'n dda iawn, ac mae hyn i raddau helaeth oherwydd y berthynas sydd gan y swyddogion – maent fel teulu. Mae'n ymwneud fwy â chefnogaeth cydweithwyr, er fod pawb yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael drwy AD. Mae swyddogion profiadol iawn yn gweithio i lechyd yr Amgylchedd. Weithiau gofynnir iddynt pam eu bod yn gweithio mor hwyr, oni ddylent fynd gartref, ac ati. Cânt eu hatgoffa i beidio ceisio â gwneud popeth, ond i wneud yr hyn y gallant. Mae'r sefyllfa wedi bod yn arbennig o anodd i nifer o'r swyddogion sydd â phlant bach, am fod angen iddynt greu cydbwysedd rhwng y gwaith ychwanegol (ac amrywiaeth y gwaith) a dysgu'r plant gartref. Tîm bychan yw'r tîm Trwyddedu. Mae cyfnod o salwch tymor hir wedi bod o fewn y tîm hefyd. Ond mae'r swyddogion yn gweithio'n galed ac yn addasu'n gyflym. Rydym wedi derbyn peth cyllid drwy Gronfa Cymorth Covid. Mae hyn wedi galluogi un swyddog, a oedd yn rhannu swydd, i weithio llawn amser hyd at fis Mawrth. Mae hyn wedi lleihau ychydig o'r pwysau. Yn yr un modd, mae swyddogion sy'n gweithio'n galed iawn hefyd o fewn y tîm Safonau Masnach, ac maent yn wynebu'r un heriau gyda'r un ymroddiad. Maent yn ymwybodol o'r strwythur cefnogaeth, pe byddai ei angen arnynt.

*Pe byddai cyfnod atal byr arall, pwy fyddai'n gyfrifol am sicrhau nad yw mangre'n torri rheolau?*

Mae'r rheoliadau'n eithaf cymhleth. Mae gennym bwerau o ran unrhyw fangre drwyddedig drwy'r Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) 2020. Rhennir y bwerau yma gyda Heddlu Gwent. O ran tafarndai a chlybiau, mae gennym bwerau drwy'r FPNs, rhybuddion, ac ati. Rydym yn edrych ar y rhain yn rheolaidd, ac yn rhoi cyngor o ran cadw pellter cymdeithasol, ac ati. Nid ydym yn wasanaeth 24/7, felly yr Heddlu sydd fel arfer yn ymateb yn y lle cyntaf i gwynion am fangre benodol ar ôl oriau gwaith, gan mai nhw sy'n derbyn yr alwad. Yna byddant yn cysylltu gyda ni i drafod amodau trwyddedu. Iechyd yr Amgylchedd a Trwyddedu sy'n dueddol o ddelio â phethau. O ran y problemau sy'n ymwneud â phobl, bydd ffocws penodol ar wahardd ymgysylltiadau cymdeithasol, sef maes Heddlu Gwent – nid oes gennym unrhyw bwerau o ran eiddo domestig.

*A yw lefelau cydymffurfiaeth/ diffyg cydymffurfiaeth yn cael eu cofnodi? A oes modd i ni weld y ffigurau yma?*

Bu i ni ddarparu'r wybodaeth yma ar gyfer y Pwyllgor Dethol Oedolion ym mis Medi – rydym yn rhoi diweddariad i Lywodraeth Cymru bob tair wythnos. Gallwn rannu'r adroddiad yma a'r holl ffigurau ar wahân. Mae 4 hysbysiad gwella a 2 gosb benodedig wedi eu rhoi i dafarndai. Mae ein tafarndai a'n tai bwyta wedi cydymffurfio i raddau helaeth. Rydym yn ceisio gweithio ar sail cyngor yn hytrach na gorfodaeth, ond wrth gwrs, mae'r arf hwnnw ar gael i ni. Mae cynorthwyo gyda trefnu digwyddiadau penodol, a dadansoddi deddfwriaeth wedi cymryd llawer o amser. Mae'r rhifau, felly, yn gyfansymiad bras o'r gwaith sydd wedi ei wneud.

*Pan mae mangref wedi ehangu gan ddefnyddio gofod awyr agored, pwy sy'n gyfrifol am sicrhau bod pellter cymdeithasol yn cael ei gadw?*

Cyfrifoldeb y busnes yw hyn. Rydym yn rhagweithiol o ran rhoi gwybodaeth iddynt pan osodwyd y cadeiriau a'r byrddau yn yr awyr agored yn y lle cyntaf. Llaciwyd y gyfraith o ran cynhwyswyr diodydd caeedig er mwyn rhoi mwy o ryddid o ran symud rhwng mangre a'u lleoliad awyr agored. Yn ogystal â hyn mae'r elfen Priffyrdd, o ran trwydded palmant. Rydym yn gofyn i leoliadau ddiffinio eu hardal yn glir, pan fydd gofod awyr agored yn cael ei rannu. Er hyn, yn ddibynol ar yr achos penodol, mae'n bosib i

fater sy'n ymwneud â gofod awyr agored ddatblygu'n fater stryd, ac felly ddod yn fater i'r heddlu. Ond byddai gan y fangre dan sylw ddyletswydd, o hyd, i gyfeirio ei cwsmeriaid yn ddiogel gartref pan fyddant yn gadael, a dweud wrthynt am beidio â chymdeithasu ar y stryd.

#### **Crynodeb y Cadeirydd 4b:**

Lleisiodd y Cynghorydd Guppy bryderon ynglŷn â dathliadau'r Nadolig a'r Flwyddyn Newydd, a'r adnoddau ychwanegol angenrheidiol. Cadarnhaodd y swyddogion fod gan Heddlu Gwent fwy o adnoddau, ac y byddant yn canolbwyntio mwy ar leoliadau preswyl yn hytrach na rhai trwyddedig, er y byddant yn ymweld â lleoliadau trwyddedig gyda'n swyddogion ni. Roedd y Cynghorydd Guppy hefyd yn bryderus ynglŷn â seddi plant mewn tacsis – cadarnhawyd y dylai gyrwyr tacsii ddilyn canllawiau arferol, ond cyfrifoldeb y rhaint yw darparu sedd plentyn. Canmolodd y Cynghorydd Treharne yr adroddiad a'r swyddogion, a mynegodd bryder ynglŷn â morâl y swyddogion. Clywsom fod angerdd y tîm yn amlwg iawn. Mae swyddogion wedi gweithio oriau hir, ond maent wedi cefnogi eu gilydd, ac mae cefnogaeth bellach ar gael os oes angen. Gofynnodd y Cynghorydd Batrouni cyfrifoldeb pwy yw gorfodi rheolau pe byddai cyfnod atal byr arall yn digwydd; rhoddodd y swyddogion wybod fod y rheoliadau'n rhannu'r dyletswydd rhwng yr Heddlu a'r Cyngor. Gofynnodd y Cynghorydd hefyd ynglŷn â chofnodi'r data yma; mae adroddiad yn cael ei gynhyrchu bob tair wythnos sydd bellach wedi ei rannu gyda'r aelodau yn ystod y cyfarfod yma. Gofynnodd y Cynghorydd Treharne cyfrifoldeb pwy yw sicrhau bod pellter cymdeithasol yn cael ei gadw yng ngofod awyr agored mangre; dyma gyfrifoldeb y busnes.

#### **4. Craffu ar Adroddiad Perfformiad y Gwasanaeth Cofrestru 2019/20 ac ymateb Covid-19 yn 2020.**

Cyflwynodd y swyddog Jennifer Walton yr adroddiad.

#### **Her:**

*Pryd y bydd modd cofrestru genedigaethau mewn llyfrgelloedd unwaith eto?*

Ym mis Mawrth, rhoesom y gorau i gofrestru mewn llyfrgelloedd a daethom a phopeth yn ôl i Swyddfa Brynbuga. Roedd hyn yn bennaf am ei bod yn haws i ni reoli'r amgylchedd pan fyddwn mewn un adeilad, ac mae'n rhoi mwy o gydnerthedd i ni pe byddai salwch ymysg staff. Rydym wedi bod allan ar gyfer rhai eithriadau, ee i Neuadd Nevill, ond nid oes cynllun ar hyn o bryd i fynd yn ôl allan i leoliadau eraill. Pe byddai anhawster a fyddai'n golygu bod angen i ni fynd i leoliad arall, wrth gwrs, byddem yn gwneud hynny. Hoffem i fwy o amser fynd heibio o ran y pandemig yn gyntaf cyn dychwelyd i batrwm arferol o fynychu'r holl leoliadau eraill.

*A ydym yn rhagweld y bydd mewnlif mawr o ran gwaith i'ch tîm wrth symud ymlaen o ystyried faint o briodasau sydd wedi cael eu gohirio?*

Mae gennym nifer fawr o briodasau wedi eu trefnu ar gyfer y flwyddyn nesaf. Maent wedi eu trefnu yn y fath fodd, mae modd i'r tîm sydd gennym ymdopi â hwy. Rydym yn wylidwrus am fod llawer o bobl yn cychwyn gwneud cynlluniau eraill, felly mae'n anodd gweld sut y bydd y darlun mawr yn edrych yr haf nesaf. Os, yn y flwyddyn newydd, y bydd cyfyngiadau'n llacio, bydd nifer o'r seremonïau'n mynd yn eu blaen, ond os yw nifer y gwesteion i frecwast priodas yn cael ei gyfyngu i 15, bydd nifer eisiau gohirio.

#### **Crynodeb y Cadeirydd:**

Trafodom y posibilrwydd o symud cofrestrïadau yn ôl i lyfrgelloedd, er mwyn bod yn fwy hyblyg i breswylwyr. Nid yw'r drefn arferol yn ôl yn ei lle, er mwyn gwarchod staff a chyflenwi yn ystod cyfnodau o salwch, ond mae'r staff wedi ymweld â Neuadd Nevill o dan amgylchiadau arbennig. Ow yw'r sefyllfa o ran y pandemig yn gwella, bydd y tîm yn edrych ar gychwyn rhedeg gwasanaethau yn y modd arferol eto.

**5. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**6. Pwyllgor Dethol Cymunedau Cryf dyddiedig 17eg Medi 2020.**

Cadarnhawyd bod y cofnodion yn gofnod cywir.

**7. Cyfarfod Arbennig - Pwyllgor Dethol Cymunedau Cryf dyddiedig 28ain Medi 2020.**

Cadarnhawyd bod y cofnodion yn gofnod cywir.

**8. Rhaglen waith ymlaen Cymunedau Cryf**

Bydd y cyfarfod nesaf ar y 17eg o Ragfyr yn edrych ar y Cynllun Gweithredu Stategol ar Gydraddoldeb a'r gwaith ar doiledau cyhoeddus. Bydd cyfarfod arbennig ganol Ionawr er mwyn ystyried y Cynllun Gweithredu ar Dlodi.

**9. Rhaglen waith ymlaen y Cabinet a'r Cyngor**

**10. Cadarnhau dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf**

The meeting ended at **Time Not Specified**